

DOLEN Y TAB 98

18–19 Mawrth 2022

Bore Sul 20 Mawrth am 11

Oedfa yng nghwmni Marian a Rowland Wynne, gyda Bethan Roberts wrth yr organ.

Caiff yr oedfa ei ffrydio'n 'fyw' ar dudalen *Facebook* y capel a bydd modd gwyllo recordiad yn ddiweddarach naill ai ar *Facebook* neu ar *YouTube*.

Cofiwch gofrestru sedd(i) erbyn 6 nos Wener.

YR OEDFAON NESAF

Mawrth

27 Y Parchg. Gethin Rhys a Huw Roberts

Ebrill

3 Yr Ysgol Sul gyda Bethan Reynolds – Paratoi at y Pasg

10 Sul y Blodau, Y Parchg. Aled Edwards

17 Sul y Pasg, Y Parchg. Eirian Rees

Hefyd ddydd Sul 20 Mawrth

12:00 Oedfa Radio Cymru

Gwasanaeth dan ofal Sharon Rees, Pen-rhys.

12:30 Radio Cymru – Bwrw Golwg

John Roberts a'i westeion yn trafod materion moesol a chrefyddol.

19.30–20.00 S4C Dechrau Canu Dechrau Canmol – Yr Hen a'r Newydd Ryland fydd yn ôl yng nghaffi'r Hedyn Mwstard yn Llanbedr Pont Steffan i ymweld ag Eglwys newydd sbon.

E-fwletin Cristnogaeth21

Bob bore Sul www.cristnogaeth21.cymru

Dathliad Gŵyl Ddewi

Daeth criw niferus o oedolion a phobl ifanc i ddathlu Gŵyl Ddewi yn neuadd y pentref yn dilyn yr oedfa fore Sul diwethaf. I nifer, hwn oedd y tro cyntaf iddynt fentro cyfarfod yn gymdeithasol gyda'u cyd-aelodau yn y Tabernacl am yn agos i ddwy flynedd. Ond roedd y gwmnïaeth a'r cawl blasus yn werth yr holl aros. Bu ymrafael brwd iawn rhwng y byrddau am y fraint o ddod i'r brig yn y cwis heriol, a braf yw gallu llongyfarch Tîm Elis Roberts ar eu camp. Mae ein diolch yn fawr iawn i Eleri Mai a'r criw brwdfrydig o wirfoddolwyr fu wrthi'n ddiwyd yn paratoi'r lluniaeth ymlaen llaw ac am weini'r bwyd a'r ddiod. Llongyfarchiadau hefyd ar godi £240 i'w ychwanegu at gronfa Apêl Wcráin y Tabernacl.



CAIS AM GACENNAU

Bydd paned a chacen i bawb yn ystod Sesiwn Flasu Cynllun Eglwys Dementia-gyfeillgar Undeb yr Annibynwyr yn festri Bethlehem, Gwaelod-y-garth bnawn Sadwrn, Ebrill 2. Y Tabernacl Efail Isaf a Bethlehem Gwaelod-y-garth sy'n cynnal y sesiwn, gyda Bethlehem yn trefnu'r baned, a'r Tabernacl yn cyfrannu at y cacennau.

Os ydych chi'n fodlon pobi cacen, plis cysylltwch â fi erbyn Mawrth 26. Os na fyddwch yn medru dod i'r Sesiwn, mae croeso i chi ddod â'ch cacen i'n tŷ ni ymlaen llaw.

DIOLCH YN FAWR

Ann Dwynwen

02920 891344 ann.pentyrch@btinternet.com

87 Maes y Sarn, Pentyrch

Wâc Heddychlon

Taith yn dechrau tu allan i'r neuadd



26.03.2022

Croeso cynnes i bawb ymuno i ddangos cefnogaeth i bobl Wcráin

Ac yn gorffen gyda phaned a chacen @Y Ganolfan

A Peace Walk

Walk starts outside the hall



2pm

A warm welcome to everybody to show our support to the people of Ukraine

Finishing with a cuppa and cake @The Vestry

CYFLE I DDWEUD EICH DWEUD

Fore Sul, byddwn yn nodi union ddwy flynedd ers i ni gynnal yr oedfa olaf yn y Tabernacl heb gael unrhyw gyfyngiadau o ran ble y gallem eistedd nac unrhyw orfodaeth arnom i wisgo mwgwd. Mae'n bosib iawn y bydd cyhoeddiad gan Lywodraeth Cymru ganol yr wythnos nesaf yn codi'r orfodaeth arnom i wisgo mwgwd mewn siopau, a thrafnidiaeth gyhoeddus, o ddydd Llun 28 Mawrth ymlaen – os na fydd y sefyllfa wedi gwaethygu yn y cyfamser. Codi'r orfodaeth gyfreithiol fydd byrdwn tebygol datganiad y Llywodraeth, tra mai cyfrifoldeb pob eglwys unigol fydd dewis pa fesurau diogelwch i'w hepgor a pha rai i lynu atynt am y tro. Cyn i'r Bwrdd benderfynu ar y ffordd ymlaen yn y Tabernacl, cytunwyd i wahodd yr aelodau i fynegi pa opsiwn y byddent yn ei ffafrio pe bai'r Llywodraeth yn llacio'r cyfyngiadau ar ddiwedd y mis. Mae dewisiadau'r Bwrdd wedi eu rhestru isod:

1. Dim gorfodaeth i wisgo mwgwd nac i ymbellhau'n gymdeithasol, a chael eistedd lle y mynnwch [h.y. dychwelyd i'r drefn oedd yn bodoli **cyn** dyfodiad Covid-19].
2. Parhau i fynnu bod pawb dros 12 oed yn gwisgo mwgwd, ond yn hepgor yr angen i ymbellhau'n gymdeithasol ac felly'n cael eistedd ble y mynnwch.
3. Cadw at y drefn o ymbellhau'n gymdeithasol ond **dim gorfodaeth** i wisgo mwgwd [golyga hyn barhau gyda'r drefn o archebu seddi ymlaen llaw].
4. Parhau am y tro gyda'r drefn sydd wedi bodoli ers dychwelyd i'r Tabernacl ym mis Medi, sef bod angen gwisgo mwgwd ac ymbellhau'n gymdeithasol ac archebu sedd ymlaen llaw.

Bydd modd i chi fwrw eich pleidlais drwy ymateb i'r holiadur a anfonir i gyfrif e-bost yr aelodau, neu gallwch nodi rhif yr opsiwn rydych yn ei ffafrio drwy ffonio 01443 225205, neu anfon neges testun i 07710 237327 **erbyn bore Llun 28 Mawrth.**

Cylchlythyr wythnosol Capel y Tabernacl Cyf. yw **Dolen y Tab** i ledaenu newyddion trwy gyfrwng e-bost, Facebook a gwefan y capel www.tabernacl.org.

Gofynnir i chi anfon unrhyw newyddion erbyn nos lau at:
07710 237327 / 01443 225205 / gehpengwern@yahoo.co.uk



CYFUNDEB DWYRAIN MORGANNWG

Cwrdd Chwarter Rhithiol

7.30 Nos Fercher, 23 Mawrth 2022

Profiadau Arloesi Dwy Eglwys

Cyflwyniadau ar waith arloesi
Eleri Mai, Capel y Tabernacl, Efail Isaf
a chynllun Angor Grangetown,
Cynan Llwyd, Ebeneser, Caerdydd.



Anfonwch at capelytabernacl@gmail.com
am fanylion y ddolen Zoom i ymuno.





20/03/22 - Celf a Chreffft Eisteddfod yr Urdd
27/03/22 - Gweithgaredd Sul Y Mamau
03/04/22 - Bingo Pasg (Pawb 4.00-5.30)



Canolfan y Tabernacl



Bob bore Mawrth
10.30-12.00

Croeso i bawb

Sesiwn Flasu Ymgyrch Eglwysi Dementia-Gyfeillgar

yng nghwmni'r Parchedig Ddr R. Alun Evans, Sian Meinir
a Delwyn Sion.

Capel Bethlehem, Gwaelod y Garth.

2.00 Pnawn Sadwrn 2 Ebrill



Cyfle i eglwysi'r ardal gael treulio awr o gymdeithasu a chanu dros baned a chacen, gyda gwahoddiad arbennig i rai sy'n byw â dementia, eu teuluoedd a'u gofalwyr.

Bydd yn bnawn llawen, llawn hwyl!

Dewch i gefnogi!

**Trefnir gan Undeb yr Annibynwyr,
ond mae gwahoddiad cynnes i bawb**

Rhagor o wybodaeth: Emllyn Davies 02920 891344 / 07900 491247
emlyn.pentyrch@btinternet.com

(Byddwn yn ffilmio rhan o'r cyfarfod ar gyfer fideo Eglwysi Dementia-Gyfeillgar)